

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Adroddiadau ymchwil 99

# Cydraddoldeb, hawliau dynol, a mynediad at gyfiawnder cyfraith sifil

Adolygiad llenyddiaeth

Crynodeb Gweithredol

Helen Anthony a Charlotte Crilly



**Equality and  
Human Rights**  
Commission

© 2015 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Cyhoeddwyd gyntaf i'w gadarnhau 2015  
ISBN 978-1-84206-657-7

## **Cyfres Adroddiadau Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Mae Cyfres Adroddiadau Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyhoeddi ymchwil a wnaed dros y Comisiwn gan ymchwilwyr wedi eu comisiynu.

Barn yr awduron yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn cynrychioli barn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi'r adroddiad fel cyfraniad at drafodaeth a dadl.

Cysylltwch â'r Tîm Ymchwil am ragor o wybodaeth am adroddiadau ymchwil eraill y Comisiwn, neu ewch i'n gwefan.

Post: Research Team  
Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol  
Arndale House  
The Arndale Centre  
Manchester M4 3AQ

E-bost: [research@equalityhumanrights.com](mailto:research@equalityhumanrights.com)

Ffôn: 0161 829 8500

Gwefan: [www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

Gallwch lawrlwytho copi o'r adroddiad hwn fel PDF o'n gwefan:  
[www.equalityhumanrights.com](http://www.equalityhumanrights.com)

Os bydd arnoch angen y cyhoeddiad hwn ar ffurf arall, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu i drafod eich anghenion yn: [correspondence@equalityhumanrights.com](mailto:correspondence@equalityhumanrights.com)

Adroddiadau ymchwil 99

Cydraddoldeb, hawliau dynol,  
a mynediad at gyfiawnder  
cyfraith sifil

Adolygiad llenyddiaeth

Crynodeb Gweithredol

Helen Anthony a Charlotte Crilly

## 1. Cefndir

Cyflwynwyd nifer o newidiadau a all effeithio ar fynediad at gyfiawnder cyfraith sifil yng Nghymru a Lloegr dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau yma yn cynnwys: gostyngiad sylweddol yng nghwmpas cymorth cyfreithiol sifil dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr (LASPO) 2012; cynigion ar gyfer rhagor o ddiwygiadau i gymorth cyfreithiol (gan gynnwys prawf preswyllo); diwygiadau i adolygiadau barnwrol; a chyflwyno ffioedd mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gorff statudol; nodir ei bwerau a'i ddyletswyddau yn Neddf Cydraddoldeb 2006. Y Comisiwn yw'r eiriolwr annibynnol dros gydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain. Cododd adroddiad canol tymor y Comisiwn am gynydd y Deyrnas Unedig wrth geisio cyflawni argymhellion yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol<sup>1</sup> bryderon am oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol llawer o'r newidiadau diweddar mewn cyfiawnder cyfraith sifil (EHRC, 2014a). Er mwyn bod yn sail i'w strategaeth yn y dyfodol yn y maes hwn, comisiynodd y Comisiwn adolygiad llenyddiaeth i ddynodi effeithiau posibl a gwirioneddol y newidiadau i gyfiawnder cyfraith sifil yn ddiweddar ar gydraddoldeb a hawliau dynol.

## 2. Methodoleg

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn archwilio:

- Yr effeithiau posibl neu wirioneddol y gall newidiadau i fynediad at gyfiawnder cyfraith sifil ei gael ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,<sup>2</sup> gan gynnwys mynediad at iawn i ddioddefwyr gwahaniaethu.
- Effeithiau posibl neu wirioneddol y newidiadau i fynediad at gyngor a iawn am dorri hawliau dynol, heb ystyried nodweddion a ddiogelir a gofnodir.

Yn ystod y cyfnod lonawr hyd Fawrth 2015, edrychodd yr adolygiad ar ystod o lenyddiaeth academiaidd ac yn y diwydiant, achosion cyfreithiol a ffynonellau eilaidd. Roedd yn canolbwyntio yn bennaf ar ddeunydd a gyhoeddwyd ers Tachwedd 2010, er bod rhai ffynonellau cynharach wedi eu hystyried pan oeddynt yn berthnasol. Gan fod y diwygiadau yn gymharol ddiweddar, gwelwyd bod tystiolaeth feintiol a dadansoddiadau oedd yn dangos effeithiau ar bobl gyda nodweddion penodol a ddiogelir yn brin. O anghenraid felly mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar

<sup>1</sup> Adolygiad o gofnodion hawliau dynol yr holl aelod-wladwriaethau o'r Cenhedloedd Unedig.

<sup>2</sup> Y nodweddion a ddiogelir fel sy'n cael ei nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran; anabledd; rhyw; ail-aseinio rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; a thueddfryd rhywiol.

effeithiau'r diwygiadau trwy dynnu ar ganfyddiadau ansoddol, gan gynnwys profiad diweddar unigolion a grwpiau bychan y mae'r newidiadau wedi effeithio yn uniongyrchol arnynt.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau'r adolygiad o ddeunyddiau, yn nodi bylchau yn y wybodaeth ac yn llunio casgliadau ar sail ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd. Rhestrir y rhain yn Atodiad A.

### **3. Canfyddiadau allweddol**

**3.1** Roedd y canfyddiadau yn dueddol o dynnu sylw at y ffaith bod y diwygiadau yn effeithio yn neilltuol ar bobl anabl, menywod a phobl o leiafrifoedd ethnig:

- I bobl anabl, adroddwyd bod effaith ar fynediad at gyfiawnder mewn achosion budd-daliadau lles, gofal cymunedol, tai a gwahaniaethu.
- I fenywod, roedd y canfyddiadau yn dynodi effaith mewn achosion teuluol, pan fydd y gofynion caeth o ran tystiolaeth yn effeithio ar y rhai sydd wedi dioddef trais domestig. Mae tystiolaeth o effaith niweidiol ar fenywod o ran achosion gwahaniaethu oherwydd bod ffioedd wedi eu cyflwyno mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth.
- Gall y ffaith bod nifer fawr o fathau o achosion mewnfudo wedi cael eu tynnu o gwmpas y cyllid cyhoeddus effeithio ar leiafrifoedd ethnig.
- Adroddir bod y prawf preswyllo arfaethedig cyn cael cymorth cyfreithiol yn cael effaith anghymesur ar rai nad ydynt yn ddinasyddion Prydeinig.

**3.2** Y tu hwnt i driwlynlysoedd cyflogaeth, ychydig iawn o dystiolaeth a gofnodwyd yn ymwneud â gwahaniaethu oherwydd oedran, crefydd neu gred, neu dueddfryd rhywiol.

**3.3** Ni chanfu'r adolygiad unrhyw effeithiau wedi eu cofnodi o ran ail-aseinio rhywedd neu briodas a phartneriaeth sifil.

**3.4** Dynododd yr adolygiad yr effeithiau canlynol a gofnodwyd ar y nifer o bobl sy'n ceisio cael mynediad at gyngor ac i gael iawn am wahaniaethu:

- Mae'r nifer o ymholiadau gwahaniaethu sy'n cael eu trin gan y porth ffôn gorfodol yn llawer is na'r amcangyfrif.
- Gwelwyd gostyngiad ym mhob categori y mae cofnodion ar gael ar eu cyfer am hawliadau gwahaniaethu mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth.
- Mae rhwystrau hefyd rhag dwyn hawliadau gwahaniaethu i'r Llys Sirol.

**3.5** Dynododd yr adolygiad effeithiau wedi eu cofnodi ar bobl sy'n chwilio am gyngor a/neu iawn am achosion o dorri hawliau dynol:

- Mae rhai pobl oedd yn ceisio iawn am fod Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i barch i fywyd preifat a theuluol) wedi ei dorri yng nghyswllt teulu, tai neu fewnfudo wedi cael anhawster yn dilyn cyflwyno'r Ddeddf. Mae hyn yn wir er gwaethaf bodolaeth y cynllun ariannu achosion eithriadol.
- Mewn rhai achosion gall methu cael mynediad at gyngor cyfreithiol a chynrychiolaeth ynddo ei hun fod yn groes i Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (hawl i achos llys teg).
- Mae plant yn arbennig mewn perygl o weld eu hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cael eu torri gan y diwygiadau diweddar. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n mudo heb oedolyn gyda nhw a phlant mewn achosion teuluol.
- Mewn rhai amgylchiadau, mae offer hawliau dynol eraill yn berthnasol, fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

#### **4. Bylchau yn y dystiolaeth**

Dangosodd yr adolygiad bod nifer o fylchau yn y dystiolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys diffyg tystiolaeth am:

- Pa mor aml a pha mor effeithiol y defnyddir y system adfer ffi ar gyfer ffioedd tribiwnlysoedd cyflogaeth.
- Pam bod y cymorth cyfreithiol sy'n dal yn weithredol yn cael ei ddefnyddio cyn-lleied.
- Effaith diwygiadau cymorth cyfreithiol ar achosion adolygiadau barnwrol.
- Effaith y cynnydd yn y cyfyngiad hawliadau bach.
- Y graddau y defnyddir cyfryngu fel dewis gwahanol, yn arbennig gan fenywod o grefyddau neu gredoau gwahanol.
- Yn fwy cyffredinol, diffyg gwybodaeth am yr hyn sydd wedi digwydd i bobl na allant bellach gael cyngor, cynrychiolaeth na mynd i'r llys.

